

<b>DATGANIAD POLISI RHEOLAETH TRYSORLYS</b>			
<b>Adran</b>	Cyllid		
<b>Awdur</b>	Pennaeth Cyllid		
<b>Awdurdodwyd gan:</b>	Y Cyfarwyddwr Cyllid		
<b>Gweithredir gan:</b>	Yr Adran Gyllid		
<b>Cyfeirnod y Polisi:</b>	POFIN1819104		
<b>Polisi blaenorol:</b>	POFIN1516086		
<b>Fersiwn Rhif:</b>	2	<b>Pwyllgor Cymeradwyo:</b>	Bwrdd yr Is-ganghellor Y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid
<b>Dyddiad cymeradwyo:</b>	2/10/18	<b>Cofnod rhif:</b>	18.14.10.02 18.12
<b>Statws:</b>	Cymeradwywyd	<b>Dyddiad gweithredu:</b>	Medi 2018
<b>Cyfnod cymeradwyo:</b>	3 blynedd	<b>Dyddiad adolygu:</b>	Medi 2021

## 1 Cylch Gwaith

Mae'r datganiad hwn yn nodi polisi Prifysgol Glyndŵr Wrecsam a'i is-gwmnïau (y Grŵp) ynghylch sicrhau cyllid cyfalaf, buddsoddi arian gwaged a symud mewnol cronfeydd gwaged rhwng offerynnau a chyfrifon a sefydlwyd gan y Sefydliad. Bydd y datganiad hwn yn cael ei fabwysiadu gan y Grŵp fel rhan o'i Reoliadau Ariannol.

## 2 Diffiniad a Sgôp

Mae rheolaeth trysorlys yn cwmpasu rheoli'r holl arian parod, buddsoddiadau yn y farchnad ariannol a thrafodion y farchnad gyfalaf sy'n gysylltiedig gydag adnoddau arian a chyllid y Grŵp, a nodi a rheoli'r risgiau cysylltiedig.

Mae rheolaeth trysorlys hefyd yn ei gwneud yn ofynnol sicrhau bod gweithdrefnau yn eu lle i gydymffurfio gyda deddfwriaeth gysylltiedig e.e. Rheoliadau Gwyngalchu Arian 2003, Deddf Enillion Troseddau 2002 a Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015.

Sicrhau Cyllid Cyfalaf – Polisi'r Grŵp o ran benthycu yw lleihau'r gost tra'n cynnal sefydlogrwydd ac integriti sefyllfa ariannol y Grŵp.

Buddsoddi Cronfeydd Gwaged – Yr amcan ar gyfer benthycu neu fuddsoddi unrhyw gronfeydd yw sicrhau'r elw gorau posibl tra'n lleihau'r risg, cadw gwerth cyfalaf a diogelu enw da a gwerthoedd y Brifysgol.

Y brif egwyddor yw lleihau'r risg a chadw at werthoedd y Brifysgol, sy'n cael mwy o bwyslais nag uchafu'r elw.

Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid a'r aelodau staff dynodedig (yn Atodiad A) wedi eu hawdurdodi gan y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid i:

- a) trefnu buddsoddi cronfeydd gwarged y Grŵp, hyd at uchafswm o £1,000,000, gydag unrhyw un o'r sefydliadau a restrir mewn atodlen a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid (Atodiad B).
- b) benthycu cronfeydd yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth strategol gan y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid a'r Bwrdd Llywodraethwyr.

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr wedi awdurdodi'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid i drefnu buddsoddi cronfeydd gwarged dros £1,000,000 (cyn belled ag y bo buddsoddiadau o'r fath yn unol â'r Polisi Rheolaeth Trysorlys).

### **3 Lluio'r Strategaeth Rheolaeth Trysorlys**

Penderfynir ar ofynion Rheolaeth Trysorlys y Grŵp yn y gyllideb ariannol flynyddol a baratoir gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac a gymeradwyir gan Bwyllgor Strategaeth a Chyllid a Bwrdd Llywodraethwyr y Grŵp.

Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid yn paratoi'n flynyddol i'w cymeradwyo gan Bwyllgor Strategaeth a Chyllid a Bwrdd Llywodraethwyr y Grŵp:

- a) Rhagfynegi arian gwarged a gofynion ad-dalu benthyciadau (os yw'n berthnasol) ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod; a
- b) Strategaeth ar gyfer cyllido cynigion cyllid cyfalaf y Grŵp (os yw'n berthnasol) a buddsoddi arian parod gwarged am y cyfnod a gwmpasir gan y rhagfynegiad.

Wrth baratoi'r strategaeth bydd y Cyfarwyddwr Cyllid yn ystyried:

- c) cynnal sefyllfa ariannol sefydlog i'r Grŵp;
- d) lefelau cyfraddau llog cyfredol a rhagfynegiadau newidiadau mewn cyfraddau llog yn y dyfodol;
- e) gwerthoedd y Brifysgol a nodir yn nogfennau cynllunio'r Brifysgol e.e. y Fframwaith Strategol yn y dogfennau Llywodraethu;
- f) crynswth yr holl gronfeydd, benthyciadau a chyfrifon a weithredir gan y Grŵp.

Ar sail y rhagfynegiad blynyddol bydd y Cyfarwyddwr Cyllid yn paratoi rhagfynegiadau treigl chwarterol ar gyfer y flwyddyn gyfredol o ran yr arian parod gwarged tymor byr at ddibenion defnyddio'r strategaeth ar sail o ddydd i ddydd. Lle bo'n berthnasol bydd y Cyfarwyddwr Cyllid yn argymhell diwygiadau i'r strategaeth i'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid a'r Bwrdd Llywodraethwyr.

Mae gan y Cyfarwyddwr Cyllid awdurdod dirprwyedig i reoli strategaeth y Grŵp o ran adneuo cronfeydd gwarged a llif arian y Grŵp. Wrth weithredu'r pwerau hyn bydd ef/hi yn ystyried:

- g) rheoli risg hylifedd, gan sicrhau bod gan y Grŵp, ac y gall gael gafael ar, adnoddau arian parod digonol, ond nid gormodol, i'w alluogi i gyflawni'r amcanion busnes/gwasanaeth;
- h) y risgiau credyd a gwrthbartion sy'n gysylltiedig â'r sefydliadau cymeradwy lle gellid adneuo neu fuddsoddi'r cronfeydd;
- i) effaith newidiadau posibl mewn cyfraddau llog ar gostau benthyca a'r elw buddsoddi;
- j) rheoli risgiau cyfreithiol a rheoleiddiol trwy sicrhau bod holl weithgareddau rheolaeth trysorlys y Brifysgol yn cydymffurfio gyda'i phwerau statudol a'i gofynion rheoleiddio;
- k) rheoli risg y farchnad: bydd y Grŵp yn ceisio sicrhau na fydd ei bolisi Rheolaeth Trysorlys yn cael ei gyfaddawdu gan amrywiadau andwyol yn y farchnad o ran gwerth sylfaenol y symiau mae'n ei fuddsoddi, a bydd yn ymdrechu i ddiogelu ei hun rhag effeithiau amrywiadau o'r fath.

#### **4 Dulliau cymeradwy sicrhau cyllid cyfalaf**

Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid, ar y cyd gyda'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid a'r Bwrdd Llywodraethwyr, yn cyflawni gweithgareddau benthyca'r Grŵp ar ei ran. Ni all y Cyfarwyddwr Cyllid ymrwymo'r Grŵp i unrhyw fenthycia heb gael awdurdod penodol y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid a'r Bwrdd Llywodraethwyr.

Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid yn paratoi adroddiad i'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid ynghylch unrhyw fenthycia cyfalaf arfaethedig.

Wrth drefnu cyllid cyfalaf, bydd y Cyfarwyddwr Cyllid yn ystyried:

- a) pwerau a rheolau'r Grŵp
- b) cyfyngiadau statudol
- c) gofynion y Memorandwm Ariannol gyda'r holl gyrff cyllido perthnasol
- d) telerau a chyfamodau benthyca.

Bydd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid yn darparu cyngor i'r Bwrdd Llywodraethwyr ynghylch yr holl fenthyciadau arfaethedig, gan gyfeirio at ofynion Cyngor Cyllido Addysgu Uwch Cymru yn y Memorandwm Sicrwydd ac Atebolrwydd 2015.

Trefnir benthyciadau gyda sefydliadau y barnwyd bod ganddynt gryfder ariannol digonol i sicrhau bod y cronfeydd a roir i'w cyfleusterau ar gael fel a phan fo angen gan Grŵp y Brifysgol yn unol â thelerau'r cytundeb benthyca yn unig. Yn arferol bydd hyn yn golygu bod sefydliadau benthyca ar raddfa buddsoddi o leiaf (graddfa BBB) a'u bod yn medru dangos ymrwymiad tymor hir i'r sector addysg uwch.

#### **5 Buddsoddi ac adneuo cronfeydd gwarged**

Y brif egwyddor sy'n llywio buddsoddi balansau arian parod gwarged yw cadw gwerth cyfalaf adnoddau'r Grŵp a glynu at werthoedd y Brifysgol. Mae gan y Cyfarwyddwr Cyllid awdurdod dirprwyedig i fuddsoddi cronfeydd gwarged y Grŵp yn unol â'r strategaeth ariannol flynyddol ac yn unol â thelerau'r datganiad hwn.

Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi'i awdurdodi i fuddsoddi mewn Cyfrifon Adneuo Trysorlys, cyfrifon cyfredol sy'n talu llog ac offerynnau tebyg sy'n cadw Gwerth Cyfalaf y buddsoddiad ac yn lleihau'r risg YN UNIG.

Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid yn gyfrifol am sicrhau monitro statws credyd y rhai sy'n derbyn adneuron gan ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth allanol priodol.

Y prif ffactor sy'n llywodraethu gwneud cronfeydd gwarged yn agored i symudiadau yn y gyfradd llog yw rhagfynegiad llif arian y Brifysgol. Lle bo cronfeydd gwarged yn ofynnol i fodloni all-lifau arian parod posibl yn y dyfodol agos bydd yn cael ei adneuo yn y tymor byr am gyfnodau a fydd yn sicrhau bod y cronfeydd ar gael.

Mae'r Grŵp yn ei gwneud yn ofynnol i'w swyddogion roi ystyriaeth ddyledus i ystyriaethau llywodraethu corfforaethol, cymdeithasol, moesegol ac amgylcheddol perthnasol wrth ddewis, cadw a gwireddu'r holl fuddsoddiadau trysorlys. Disgwylia'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth i hyn gael ei wneud mewn modd sy'n gyson gydag amcanion buddsoddi, gwerthoedd a dyletswyddau cyfreithiol y Grŵp.

Bydd y Grŵp hefyd yn sicrhau sicrwydd digonol gan ei adnewyr eu bod yn bodloni'r gofynion moesegol hyn.

Llunir y portffolio buddsoddiadau fel na fydd mwy na **£3,000,000** o gyfalaf wedi'i fuddsoddi gyda unrhyw un sefydliad cymeradwy ar unrhyw adeg, ac eithrio buddsoddiadau tymor byr (llai na thri mis) y gellir eu buddsoddi gyda sefydliad y cyllidwr hyd at uchafswm o **£5,000,000**. Mae'r terfynau hyn yn eithrio gwerth cronfeydd a allai fod wedi eu cynnwys yng nghyfrifon wrth gefn cyffredinol a busnes gyda sefydliadau sy'n darparu gwasanaeth bancio syflaenol i'r Grŵp.

## **6 Rheoli Risg Hylifedd a Chronfeydd Arian Parod wrth gefn**

Bydd y Grŵp yn sicrhau bod ganddo adnoddau arian parod digonol, trefniadau benthyca a chyfleusterau gorddrafft neu wrth gefn digonol i'w alluogi i sicrhau bob amser y lefelau cronfeydd ar gael sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r amcanion busnes.

Mae system effeithiol o ragfynegi a monitro'r llif arian yn bodoli i adnabod i ba raddau y mae'r Grŵp yn agored i effeithiau amrywiadau a diffygion llif arian potensial.

Er mwyn caniatáu ar gyfer gofynion hylifedd nas rhagwelwyd, nod y Grŵp fydd meddu ar gyfleusterau sicrhau arian i gwmpasu hyd at fis o gostau gweithredu a chyflogres y Grŵp. Mae hyn oddeutu £3 miliwn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd y Grŵp yn anelu at leihau defnyddio unrhyw gyfleusterau sicrhau arian gymaint ag y bo'n ymarferol trwy gadw cronfeydd arian parod digonol gyda phrif fanciwr y Brifysgol.

Adolygir y cronfeydd sydd ar gael yn rheolaidd, a'u cymharu yn erbyn y lefel darged. Ymchwilir i unrhyw ddiffygion a gweithredu i ddod â'r cronfeydd yn unol â'r targed.

Adolygir lefel darged y cronfeydd sydd ar gael yn dilyn newidiadau arwyddocaol mewn cyllido, yr hinawdd ariannol neu risgiau eraill.

## **7 Materion cyfreithiol**

Cyn ymrwymo i unrhyw drafodion benthyca neu fuddsoddi mae'n gyfrifoldeb ar y Cyfarwyddwr Cyllid i fodloni ei hun, trwy gyfeirio os oes angen at gynghorwyr

cyfreithiol y Grŵp, nad yw'r trafodyn arfaethedig yn torri unrhyw statud, rheoliadau ariannol y Grŵp na gofynion y Memorandwm Ariannol gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

## **8 Defnyddio Rheolwyr Allanol**

Gall y Grŵp benodi rheolwyr allanol ar gyfer ei adneuron tymor byr. Mae eu telerau penodi yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid a byddant yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

## **9 Dirprwyo**

Mae'r Grŵp wedi llunio a chymeradwyo cynllun dirprwyo ar gyfer gweithredu'r polisi trysorlys, a nodir crynodeb yn Atodiad C.

## **10 Adolygu ac Adroddiadau**

Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid yn darparu adroddiadau rheolaidd ar lif arian a buddsoddi i'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid, ac adroddiad blynyddol ar berfformiad. Gwneir hyn gyda'r nod o asesu a yw'r dulliau a'r offerynnau cyfredol sy'n cael eu defnyddio yn parhau i gynrychioli'r gwerth gorau. Rhoir ystyriaeth i adolygu dulliau buddsoddi ac offerynnau buddsoddi amgen, a ph'un ai y gellid eu defnyddio i gynyddu lefel yr elw ar fuddsoddiadau yn unol â'r amcanion polisi a bennwyd gan y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid.

## **Atodiad A – Aelodau Staff Dynodedig**

Cyfarwyddwr Cyllid	- David Elcock
Pennaeth Cyllid	- Stuart Cooper
Partner Busnes	- Peter Jones
Cyfrifydd Ariannol / Partner Busnes	- Andrew Jodrell

## **Atodiad B – Sefydliadau Cymeradwy ar gyfer Buddsoddi**

- Banciau'r Deyrnas Unedig
- Cymdeithasau Adeiladu'r Deyrnas Unedig
- Sefydliadau Ariannol (Cronfeydd Pensiwn, Cwmnïau Yswiriant ac ati)
- Marchnadoedd Bond y Trysorlys (un ai trwy gyfrwng cyfryngwr neu yn enw'r Brifysgol ei hun)
- Llywodraeth Cymru
- Cyllid les (tymor byr neu dymor hir)

## **Atodiad C – Cynllun Dirprwyo'r Polisi Trysorlys**

**Pŵer dirprwyedig:**

**Gweithredir gan:**

Cymeradwyo a diwygio'r Polisi Rheolaeth Trysorlys	Y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid
Diwygio'r rhestr sefydliadau cymeradwy	Y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid a'r Bwrdd Llywodraethwyr
Cymeradwyo'r Strategaeth Ariannol Flynyddol	Y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid a'r Bwrdd Llywodraethwyr
Gweithredu'r strategaeth gymeradwy	Cyfarwyddwr Cyllid
Y Trysorlys yn ymdrin â gwrthbartïon	Cyfarwyddwr Cyllid / Pennaeth Cyllid
Awdurdodi trosglwyddiadau arian parod	Cyfarwyddwr Cyllid / Pennaeth Cyllid
Dogfennau benthyca	Cyfarwyddwr Cyllid, dan awdurdod y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid a'r Bwrdd Llywodraethwyr
Mandadau bancio a masnachu	Cyfarwyddwr Cyllid, dan awdurdod y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid a'r Bwrdd Llywodraethwyr

## **POLISI BUDDSODDI MOESEGOL**

<b>Adran</b>	Cyllid		
<b>Awdur</b>	Pennaeth Cyllid		
<b>Awdurdodwyd gan:</b>	Y Cyfarwyddwr Cyllid		
<b>Gweithredir gan:</b>	Yr Adran Gyllid		
<b>Cyfeirnod y Polisi:</b>	POFIN1819104		
<b>Polisi blaenorol:</b>	POFIN1516086		
<b>Fersiwn Rhif:</b>	2	<b>Pwyllgor Cymeradwyo:</b>	Bwrdd yr Is-ganghellor Y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid
<b>Dyddiad cymeradwyo:</b>	2/10/18	<b>Cofnod rhif:</b>	18.14.01.01 18.12
<b>Statws:</b>	Cymeradwywyd	<b>Dyddiad gweithredu:</b>	Medi 2018
<b>Cyfnod cymeradwyo:</b>	12 mis	<b>Dyddiad adolygu:</b>	Medi 2019

### **1 Pwrpas a Sgôp**

Er mwyn sicrhau bod y buddsoddiadau'n cyfateb i flaenoriaethau a gwerthoedd y Grŵp, datblygwyd Polisi Buddsoddi Moesegol. Bwriad y Polisi hwn yw cefnogi nodau'r Grŵp i fuddsoddi ei gronfeydd gydag ystyriaeth ddyledus i faterion moesegol, amgylcheddol, llywodraethu corfforaethol a chymdeithasol. Mae'r polisi'n berthnasol i'r holl staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill y Grŵp a'i nod yw rhoi llais i randdeiliaid o ran materion moesegol, amgylcheddol a chynaliadwyedd.

### **2 Amcan Buddsoddi**

Yr amcan ar gyfer benthyca neu fuddsoddi unrhyw gronfeydd yw sicrhau'r elw gorau posibl tra'n lleihau'r risg a chadw'r gwerth cyfalaf. Y brif egwyddor yw osgoi risg, sy'n cael pwyslais uwch nag uchafu'r elw.

Disgwylia'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid i ddewis, cadw a gwireddu'r holl fuddsoddiadau trysorlys gael ei wneud mewn modd sy'n gyson gydag amcanion buddsoddi a dyletswyddau cyfreithiol y Grŵp. Mae'r Grŵp hefyd yn gofyn am sicrwydd digonol gan ei adnewyr eu bod yn bodloni'r gofynion moesegol.

### **3 Buddsoddi Moesegol**

Bydd y Grŵp yn buddsoddi mewn busnesau sy'n dangos dull cynaliadwy a chadarnhaol yn foesol tuag at yr amgylchedd, llywodraethu a'r gymdeithas.

Wrth wneud penderfyniadau buddsoddi bydd y Grŵp yn:

- Cymhwyso arferion da o ran hawliau dynol
- Sicrhau bod penderfyniadau a gweithredoedd corfforaethol yn rhoi ystyriaeth ddyledus i'r amgylchedd a'r hinsawdd byd-eang
- Sicrhau prosesau ac arferion buddsoddi tryloyw
- Cymryd rhan mewn darpariaeth a chaffael adnoddau a gwasanaethau cynaliadwy
- Cymryd rhan yn yr arferion llywodraethu corfforaethol gorau
- Ceisio buddsoddi mewn gweithgareddau amgylcheddol cadarnhaol, megis cwmnïau neu gronfeydd ynni adnewyddadwy
- Peidio â buddsoddi mewn gweithgareddau sy'n cael eu hystyried yn anfoesegol neu sy'n gelyniaethu cefnogwyr ariannol neu sy'n meddu ar effaith negyddol ar ddarpar fyfyrwyr
- Annog unrhyw un sy'n dymuno herio arferion y Grŵp ar sail buddsoddi moesegol i fynegi eu pryderon

Ni fydd y Grŵp yn gwneud buddsoddiadau uniongyrchol bwriadol (yn cynnwys trwy gronfeydd ar y cyd) mewn cwmnïau o'r math isod:

- Cwmnïau tanwydd ffosil
- Cwmnïau arfau
- Corfforaethau sy'n gysylltiedig â thorri cyfraith ryngwladol

Bydd y Grŵp yn anelu at dynnu unrhyw fuddsoddiadau y canfyddir eu bod yn groes i'r polisi moesegol yn ôl.

#### **4 Adroddiadau Buddsoddi**

Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid yn cyflwyno adroddiadau Rheolaeth Trysorlys rheolaidd i'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid i'w hadolygu a'u hystyried; bydd yr adroddiadau hyn yn cynnwys manylion am faterion buddsoddi moesegol. Bydd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid yn ymgynghori gyda ac yn ystyried argymhellion a ddarperir gan Fwrdd yr Is-ganghellor (sy'n cynnwys cynrychiolaeth myfyrwyr).

Yn achos unrhyw fuddsoddiadau, bydd natur y sectorau y mae'r Grŵp yn buddsoddi ynddynt yn cael ei gynnwys yn adran Buddsoddi y datganiadau ariannol blynyddol. Mae datganiadau ariannol y Grŵp ar gael i'r cyhoedd ar y we.

#### **5 Adolygu'r Polisi**

Bydd y polisi hwn yn cael ei fonitro, ei adolygu a'i gymeradwyo'n flynyddol gan y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid.

Bydd adroddiadau cynnydd a gyflwynir i'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid yn cynnwys adran buddsoddi moesegol yn rhoi manylion y cynnydd a wnaed o ran nodau'r polisi. Er mwyn hwyluso adborth gan randdeiliaid, lle bo'n briodol bydd cynnydd y Grŵp o ran y mater hwn yn cael ei godi yng Nghyngor y Brifysgol a Chyfarfodydd Agored Blynyddol.

Mae Polisi Buddsoddi Moesegol y Grŵp ar gael i'r cyhoedd ei weld dan adrannau Cynaliadwyedd, Rhyddid Gwybodaeth a Llywodraethu gwefan y Brifysgol. Anogir myfyrwyr, staff a rhanddeiliaid i ddarparu adborth ar y polisi hwn.

Bydd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid yn adolygu'r holl adborth a dderbyniwyd, er mwyn sicrhau ymgysylltu effeithiol gyda'r polisi hwn.